

Teitl: Asesiad o Effaith Bil Cymru Rhif AE: Adran neu asiantaeth arweiniol: Swyddfa Cymru Adrannau neu asiantaethau eraill: DECC, DfT, DCLG, DEFRA, HMT, HMRC, CO	Asesiad Effaith (AE)		
	Dyddiad: 07/06/2016		
	Cam: Terfynol		
	Ffynhonnell yr ymyrraeth: Domestig		
	Math o fesur: Deddfwriaeth sylfaenol		
Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Peter Newbitt 020 7270 0433			

Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau

Barn yr RPC: Amherthnasol

Cost yr Opsiwn a Ffeirir (neu'r un mwyaf tebygol)				
Cyfanswm y Gwerth Net Presennol	Gwerth Busnes Net Presennol	Cost net i fusnes y flwyddyn (EANCB ar sail prisiau 2009)(EANCB ar sail prisiau 2009)	O fewn cwmpas y fethodoleg Un i Mewn Dau Allan	Y mesur yn gymwys fel
£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	Ydyw/Nac ydyw	Cost net I Mewn/Allan/sero

Beth yw'r broblem dan sylw? Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Sefydldd y Llywodraeth yr hyn y daethpwyd i'w alw'n broses Dydd Gŵyl Dewi ym mis Tachwedd 2014. Ei nod oedd pennu ar ba faterion yr oedd consensws gwleidyddol o ran gweithredu'r argymhellion yn ail adroddiad Comisiwn Syr Paul Silk ar Ddatganoli yng Nghymru (Silk II) ar bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd y broses hefyd wedi ystyried a oedd consensws gwleidyddol o blaid rhoi ar waith yng Nghymru unrhyw elfennau yng nghynigion Comisiwn Smith ar gyfer yr Alban. Roedd y papur gorchymyn, *Powers for a purpose: Towards a lasting devolution settlement for Wales*, a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2015, yn amlinellu'r argymhellion yr oedd consensws gwleidyddol yn eu cylch. Y rhain yw sylfaen y Bil hwn.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau arfaethedig?

Amcanion polisi'r Bil yw cyflawni'r elfennau hynny yng nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi y mae angen newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer. Bydd yn creu setliad cliriach a chryfach yng Nghymru a fydd yn gadarn a hirsefydlog. Mae'n creu model cadw pwerau i Gymru er mwyn gwahanu pwerau'n glir rhwng materion a ddatganolwyd a materion a gadwyd. Mae'r Bil hefyd yn datganoli nifer o feysydd pwnc ychwanegol sy'n cynnwys rheoleiddio tacsis, caniatáu prosiectau ynni hyd at 350MW ac echdynnu olew a nwy ar y tir. Yn ogystal â hyn, mae'r Bil yn dileu'r gofyniad am gynnal refferendwm i weithredu cyfraddau treth incwm Cymreig. Mater i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru fydd asesu effaith eu dewisiadau o ran polisi.

Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau yn lle rheoleiddio? Rhowch gyfiawnhad dros yr opsiwn a ffeirir (mwy o fanylion yn y Sylfaen Dystiolaeth)

Nid yw'r Bil yn gosod unrhyw reoliadau ei hun a mater i Lywodraeth Cymru fydd asesu unrhyw reoliadau y mae'n eu gosod o dan y pwerau newydd y mae'r Bil yn eu datganoli iddi. Roedd cytundeb Dydd Gŵyl Dewi wedi nodi'r argymhellion hynny yn ail adroddiad Comisiwn Silk (Silk II) yr oedd cefnogaeth unfrydol iddynt gan bob un o'r pedair prif blaid wleidyddol yng Nghymru. Mae'r mesurau yn y Bil yn cryfhau'r setliad datganoli yng Nghymru drwy symud at fodel cadw pwerau. Mae'r Bil yn cryfhau pwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru drwy ddatganoli pwerau mewn nifer o wahanol feysydd pwnc. Gan fod y gofyniad am gynnal refferendwm ar weithredu'r cyfraddau treth incwm Cymreig yn cael ei ddileu, bydd Llywodraeth Cymru yn fwy atebol am arian a godwyd i'w wario. Cyhoeddwyd y Bil ar ffurf drafft ac roedd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig wedi craffu arno cyn y broses ddeddfu rhwng Hydref 2015 a Chwefror 2016. Cafwyd trafodaeth ar y darpariaethau hefyd â Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwnnw.

A gaiff y polisi ei adolygu? Ni chaiff ei adolygu. Os yw'n gymwys, rhowch ddyddiad yr adolygiad: Mis/Blwyddyn

A fydd ei weithredu'n mynd y tu hwnt i ofynnol sylfaenol yr UE?			Amherthnasol		
A yw unrhyw un o'r sefydliadau hyn o fewn ei gwmpas? Os nad yw sefydliadau micro wedi'u heithrio, nodwch y rheswm yn y Sylfaen Dystiolaeth.	Micro Y/N	< 20 Y/N	Bach Y/N	Canolig Y/N	Mawr Y/N
Beth fydd y newid cyfwerth â CO ₂ mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (cyfwerth â miliwn tonnell o CO ₂)			Wedi'i fasnachu:		Heb ei fasnachu: Dim

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwyf wedi fy modloni (a) ei fod yn rhoi golwg teg a rhesymol ar effaith, buddion a chostau disgwylidig y polisi, a (b) bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau.

Llofnodwyd gan y LLOFNODWR DETHOL cyfrifol:		Dyddiad:	
---	--	----------	--

Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

Opsiw'n Polisi 1

Disgrifiad:

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau	Blwyddyn Sylfaen y GP	Cyfnod mewn Blynnyddoedd	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel: Opsiynol	Uchel: Opsiynol	Amcangyfrif Gorau:

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm Cost (Gwerth presennol)
Isel	Opsiynol	Opsiynol	Opsiynol
Uchel	Opsiynol	Opsiynol	Opsiynol
Amcangyfrif Gorau			£0

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Deddfwriaeth galluogi yw hon: ni fydd amcangyfrifon cywir o gostau ar gael nes bydd polisiau wedi'u penderfynu a'u gweithredu gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Bydd costau am weinyddu treth incwm yn dibynnu ar ddewisiadau yn y dyfodol gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Cyflogwyr/Busnes: Bydd y costau ffiniol am gydymffurfio yn dibynnu ar ffurf polisiau datganoledig a threth incwm datganoledig.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth presennol)
Isel	Opsiynol	Opsiynol	Opsiynol
Uchel	Opsiynol	Opsiynol	Opsiynol
Amcangyfrif gorau			

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Llywodraeth Cymru: Cynyddu atebolrwydd ac ymreolaeth Llywodraeth Cymru. Bydd dileu'r gofyniad am gynnal refferendwm ar ddatganoli treth incwm yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fod yn fwy atebol i etholwyr Cymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cynyddu ymreolaeth y Cynulliad. Llywodraeth y DU: Mae hyn yn galluogi'r Llywodraeth i ddatganoli rhagor o bwerau a chyfrifoldebau at y lefel fwyaf priodol, yn unol â'i hagwedd gyffredinol at ddatganoli.

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol Amh	Cyfradd disgownt (%)	
--	----------------------	--

ASESIAD BUSNES (Opsiw'n 1)

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfwerth â Blwyddyn) £m:			O fewn cwmplas Un-i-Mewn Dau-Allan?	Y mesur yn cael ei ystyried yn
Costau:	Buddion:	Net:	Y/N	Cost net I MEWN/ALLAN/Sero

Sylfaen Dystiolaeth (ar gyfer dalennau crynodeb)

BIL CYMRU

Mae Bil Cymru yn amlinellu'r model cadw pwerau newydd ar gyfer y setliad datganoli yng Nghymru a'r pwerau newydd hynny sy'n cael eu datganoli. Bil cyfansoddiadol yw hwn: mae'r darpariaethau'n rhoi'r gallu i ddatganoli pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Lywodraeth Cymru yn ogystal ag eglurhad ynghylch beth sydd wedi'i ddatganoli a beth sydd heb ei ddatganoli o dan y model cadw pwerau yn Atodlenni 1 a 2. Mater i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru fydd penderfynu sut i ddefnyddio'r pwerau hyn ac, o ganlyniad, beth fydd effaith eu polisïau ar fusnes, unigolion a phartïon eraill y bydd effaith arnynt. Bydd angen gwneud deddfwriaeth yn y Cynulliad neu orchmynion gweithredol gan Weinidogion Cymru i gyflawni'r newidiadau ar ôl datganoli pwerau; mater i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru fydd dangos yr asesiad o effaith y newidiadau y maent yn eu gwneud.

Mae'r Bil hwn hefyd yn dileu'r gofyniad am gynnal refferendwm i gychwyn y broses o ddatganoli elfen o dreth incwm yn unol â'r ddarpariaeth yn Neddf Cymru 2014. Ochr yn ochr â'r Bil, cafwyd cyhoeddiad gan y Llywodraeth yn Natganiad yr Hydref ac Adolygiad o Wariant 2015 am gyllid gwaelodol yn y cyllid cymharol y mae'n ei ddarparu i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn, ynghyd â datganoli treth incwm, yn caniatáu i Lywodraeth Cymru dyfu economi Cymru a chynyddu ei hatebolrwydd i etholwyr Cymru.

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymdrin â'r effeithiau o ddatganoli'r pwerau hyn. Nid yw'n asesu sut y bydd y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru yn defnyddio'r pwerau hynny ond, yn hytrach, bydd yn ymdrin â'r effeithiau uniongyrchol ar fusnesau ac unigolion o ganlyniad i ddatganoli'r pwerau hyn. Mae'r asesiad effaith yn delio ar wahân â'r pwerau hynny a ddatganolir i'r weithrediaeth (Llywodraeth Cymru) a'r rheini a ddatganolir i'r ddeddfwrfa (Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Mae hefyd yn crybwyll ac yn diweddarau'r asesiad effaith a ddrafftwyd ar gyfer Deddf Cymru 2014 ar ddatganoli treth incwm. Nid yw'r asesiad effaith yn ymdrin â'r cymalau ar weithdrefnau'r Cynulliad gan mai dibwys neu fach iawn fyddai eu heffaith uniongyrchol ar fusnesau ac unigolion.

Lle mae swyddogaethau penodol yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, bydd y gyllideb sydd wedi'i haseinio i'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU ar gyfer y swyddogaethau hynny yn cael ei throsglwyddo. Felly, wrth arfer y pwerau newydd hyn ar ôl eu datganoli, dim ond os bydd yn penderfynu darparu ar gyfer rheoleiddio ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu costau ychwanegol. Mae'r Bil yn diwygio rheolau sefydlog y Cynulliad fel y bydd prawf effaith ar gyfiawnder ar gyfer pob Bil Cynulliad. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw feichiau ar y system gyfiawnder o ganlyniad i ddarpariaethau mewn Bil Cynulliad yn cael eu hasesu'n ddigonol.

Trosglwyddir y pwerau i Lywodraeth Cymru ar ddyddiad penodedig, felly bydd darpariaethau trosiannol yn cael eu rhoi ar waith.

Y PWERAU A DDATGANOLIR

Ymestyn pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru i Ddyfroedd Môr Mawr Cymru

Ar hyn o bryd mae cyfrifoldebau gan Weinidogion Cymru ar gyfer trwyddedu morol (ac eithrio mewn perthynas â gweithgareddau a gadwyd yn ôl) a chadwraeth forol yn ardaloedd glannau Cymru ac mae'r Bil yn ymestyn y swyddogaethau datganoledig presennol i ardaloedd môr mawr Cymru. Bydd y swyddogaethau ychwanegol a

ddatganolir gan y Bil mewn perthynas â thrwyddedu morol, cadwraeth forol, rhoi caniatâd ar gyfer gorsafoedd ynni ar y glannau ac ar y môr mawr hyd at 350MW a physgodfeydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynllunio'n fwy cydlynol ar gyfer eu hardaloedd morol ar y môr mawr ac ar y glannau a'u rheoli. Mewn perthynas â thrwyddedu morol, bydd darpariaethau trosiannol digonol ar waith yn y Bil fel y bydd y Sefydliad Rheoli Morol yn cadw cyfrifoldeb am benderfynu ar unrhyw geisiadau newydd am drwyddedau a wnaed cyn y dyddiad cychwyn. Rhagwelir y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru/Gweinidogion Cymru yn gyfrifol, o'r cychwyn, am benderfynu ar geisiadau am amrywio a throsglwyddo trwyddedau morol a wnaed cyn y dyddiad cychwyn oni bai bod angen trefniadau trosiannol amgen. Ynghyd â'r pwerau cydsynio ynni newydd, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu ardaloedd diogelwch o amgylch y gweithfeydd ynni adnewyddadwy hynny ar y môr mawr y byddant yn gyfrifol amdanynt (y rhai hyd at 350MW).

Fodd bynnag, dylai'r ffaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ardaloedd y glannau a'r môr mawr leihau'r baich ar fusnesau gan y bydd yn dangos yn glir iddynt pwy sy'n rhoi trwyddedau a chaniatâd ac felly'n eu helpu i wneud penderfyniadau cyson. Mae nifer y ceisiadau am drwyddedau morol yn ardal môr mawr Cymru yn fach iawn. Er hynny, bydd rhai manteision i fusnesau a fyddai fel arall wedi gorfod delio ag awdurdodau trwyddedu gwahanol ac, o bosibl, systemau rheoleiddio gwahanol.

Trwyddedu gweithrediadau echdynnu petrolewm ar y tir

Bydd y cyfrifoldeb dros drwyddedu gweithrediadau i echdynnu olew a nwy ar y tir o dan y tir yng Nghymru'n cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn gallu rhoi trwyddedau ar gyfer echdynnu olew a nwy ar y tir yng Nghymru. Bydd y pwerau hyn yn ategu pwerau presennol Llywodraeth Cymru dros gynllunio a thrwyddedu amgylcheddol. O ganlyniad i hyn, bydd rheolaeth lawn gan Lywodraeth Cymru dros benderfyniadau sy'n ymwneud â datblygiadau olew a nwy ar y tir, gan gynnwys gweithrediadau hollti hydrologig (siâl).

Mae'n bosibl y bydd rhai beichiau gweinyddol ychwanegol ar fusnesau sy'n gweithredu ar draws Cymru a Lloegr os bydd y Cynulliad yn deddfu i greu system wahanol ar gyfer trwyddedu yng Nghymru. Fodd bynnag, ni ellir asesu natur unrhyw feichiau nes bydd unrhyw system drwyddedu newydd ar y tir ar gyfer Cymru'n cael ei sefydlu. Er hynny, dylid nodi ei bod yn debygol, ar ôl cysylltu'r system drwyddedu â swyddogaethau cynllunio ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru, mai dim ond un awdurdod penderfynu y bydd busnesau'n gorfod cyflwyno ceisiadau iddo ar gyfer echdynnu olew a nwy ar y tir.

Wrth ddisgwyl datganoli'r cyfrifoldeb dros drwyddedu gweithrediadau echdynnu petrolewm ar y tir, ac yn dilyn trafodaeth â darpar drwyddedeion, ni roddir unrhyw Drwyddedau Chwilio a Datblygu newydd yng Nghymru o dan y trefniadau trwyddedu presennol ar gyfer y DU gyfan. O ganlyniad i hyn, ni roddwyd unrhyw drwyddedau ar gyfer y 14eg Cylch Trwyddedu ar Dir a gynhaliwyd yn 2015 ac ni fydd unrhyw gylchoedd trwyddedu ar gyfer y DU gyfan yn y dyfodol yn cynnwys blociau yng Nghymru. Ar ôl datganoli'r pwerau, penderfyniad i Lywodraeth Cymru fydd cynnal unrhyw gylchoedd trwyddedu. Mae 19 o drwyddedau presennol ar gyfer blociau neu rannau o flociau sydd o fewn ardal Tir Cymru. Yn ôl asesiad yr Awdurdod Olew a Nwy, mae'n annhebygol y ceir ceisiadau am ddiwygio'r trwyddedau hyn, er enghraifft i newid deiliad neu weithredwr y drwydded, o hyn tan yr adeg y caiff y swyddogaethau eu throsglwyddo i Lywodraeth Cymru. Pe byddai cais am unrhyw newidiadau o'r fath yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r Awdurdod Olew a Nwy yn ymgynghori â swyddogion Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen. Byddai effaith fach dros dro

ar fusnes pe byddai angen cymryd camau o'r fath. Bydd trwyddedau sy'n pontio'r ffin yn cael eu rhannu, gan adael trwydded Seisnig a thrwydded Gymreig.

Echdynnu petrolewm ar y tir: yr hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yng Nghymru

Bydd pwerau deddfu sy'n ymwneud â mynediad i dir ar gyfer chwilio neu dyllu am betrolewm, neu ei gael, o fewn ardal tir Cymru ("Welsh onshore area") (gweler yr eithriad i'r ddarpariaeth ar gyfer cadw D2 (olew a nwy) yn yr Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru.

Mae adran 43 o Ddeddf Seilwaith 2015 (DS 2015) yn darparu ar gyfer hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr (h.y. tir ar ddyfnderoedd o 300 metr ac yn is) er mwyn elwa o betrolewm ac ynni geothermol dwfn mewn ardaloedd tir ("landward areas") yng Nghymru a Lloegr. Mae adrannau 45 a 46 o DS 2015 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n cynnwys cynlluniau talu ("payment schemes") a chynlluniau hysbysiadau ("notice schemes") sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgymeriadau ynni perthnasol ("relevant energy undertakings") wneud taliadau i berchenogion tir ac eraill mewn perthynas â'r hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr ac i roi hysbysiad mewn perthynas ag arfer yr hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr. Y bwriad yw na fydd y pwerau hyn i wneud rheoliadau ond yn cael eu harfer os bydd yr ymrwymadau gwirfoddol a wnaed gan y diwydiant i hysbysu cymunedau lleol a gwneud taliadau mewn cysylltiad â'r hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yn anfoddhaol.

Ni allwn asesu'r costau a buddion nes bydd, ac oni fydd, Llywodraeth Cymru yn penderfynu sut y mae'n dymuno gweinyddu unrhyw system o'r fath. Fodd bynnag, yn achos busnesau a allai weithredu ar draws Cymru a Lloegr, mae'n bosibl y byddai datganoli'r pwerau hyn yn creu rhai beichiau gweinyddol ychwanegol, pe byddai system wahanol iawn yng Nghymru.

Cofrestru llwybrau bysiau

Ar hyn o bryd, mae unrhyw weithredwr sydd am redeg gwasanaeth bysiau lleol yn gorfod cofrestru hyn gyda'r Comisiynydd Traffig. Bydd y Bil yn datganoli'r pŵer i ddeddfu mewn perthynas â chofrestru gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru. Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i benderfynu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cofrestru gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru (fel y gwneir yn yr Alban) gan gynnwys y rheolau ar gyfer cofrestru a'r ffordd o'u gorfodi. Ar 31 Mawrth 2015, roedd 1483 o wasanaethau bysiau lleol wedi'u cofrestru yng Nghymru, a'r ffigur hwnnw wedi codi o 1058 yn 2014.

Mae'r gallu eisoes gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar nifer o agweddau ar bolisi ar gyfer gwasanaethau bysiau, gan gynnwys y ddarpariaeth o gymorthdaliadau, ac mae cymhwysedd deddfwriaethol gan y Cynulliad dros wasanaethau ar dendr, tocynnau teithio rhatach a hwyluso'r defnydd o docynnau cardiau clyfar. Bydd y pwerau newydd yr ydym yn eu datganoli dros gofrestru gwasanaethau bysiau lleol yn ategu'r pwerau sydd eisoes wedi'u datganoli i Gymru, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â pholisi trafndiaeth strategol ac integreiddio trafndiaeth. Gallai'r Cynulliad benderfynu newid y system bresennol ar gyfer cofrestru gwasanaethau bysiau, felly gellid cael effaith ar y gweithredwyr bysiau hynny sy'n rhedeg gwasanaethau bysiau lleol y ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, os oeddent yn gorfod cydymffurfio â dwy system wahanol ar gyfer cofrestru gwasanaethau bysiau. Mae'n bosibl y byddai gweithredwyr bysiau'n ysgwyddo costau gweinyddol ychwanegol wrth i wahaniaethau godi yn y systemau ar gyfer cofrestru gwasanaethau bysiau rhwng Cymru a Lloegr.

Bydd pwerau gan y Cynulliad i ddeddfu i newid y system sy'n rheoli gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru. Mater i'r Cynulliad felly (os bydd yn penderfynu newid y gyfraith ar gofrestru gwasanaethau bysiau) fydd gwneud darpariaethau trosiannol i hwyluso'r broses o gyflwyno ei newidiadau.

Rheoleiddio tacsis

Bydd y Bil yn datganoli cymhwysedd deddfwriaethol dros reoleiddio tacsis a cherbydau hurio preifat (CHPau) i'r Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau tacsis a CHPau yn cael eu trwyddedu gan awdurdodau lleol (ar lefel y cynghorau dosbarth/awdurdodau unedol) o dan deddfwriaeth sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr y tu allan i Lundain. Mae 22 o awdurdodau trwyddedu yng Nghymru. O fewn y fframwaith deddfwriaethol, mae awdurdodau trwyddedu lleol yn gosod eu polisiau a safonau eu hunain.

Bydd y Bil yn datganoli cymhwysedd deddfwriaethol dros y maes hwn, fel y bydd y Cynulliad yn gallu diwygio neu ddisodli'r deddfwriaeth bresennol mewn perthynas â Chymru.

Bydd yn bosibl i Lywodraeth Cymru greu system drwyddedu ar gyfer tacsis a CHPau sy'n wahanol i'r un sydd yn Lloegr. Byddai unrhyw gwmnïau tacsis a CHPau sy'n gweithredu ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn gorfod gweithio oddi mewn i systemau gwahanol, a chydymffurfio â nhw, os bydd y Cynulliad yn deddfu i gyflwyno system drwyddedu wahanol yng Nghymru.

Porthladdoedd

Mae'r Bil yn trosglwyddo ystod eang o swyddogaethau a phwerau i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad mewn perthynas â pholisi datblygu porthladdoedd ar gyfer harbyrau sydd yn gyfan gwbl o fewn ffin Cymru. Mae hyn yn cynnwys y gallu i wneud gorchmynion diwygio harbwr gan gynnwys rhai ar gyfer y cynlluniau mwyaf i ddatblygu cyfleusterau harbwr; ystyried gwrthwynebiadau i dollau harbwr; cael gwybodaeth a rhagolygon gan borthladdoedd yng Nghymru, yn ogystal â phwerau sy'n gysylltiedig â thaliadau llywio. Mae hyn yn gam mawr tuag at ddatganoli rhagor o gyfrifoldeb gan fod y Cynulliad yn gyfrifol ar hyn o bryd am borthladdoedd pysgota a hamdden bach yng Nghymru. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried cynlluniau i ddatblygu porthladdoedd yng Nghymru yn rhan o strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd, trafndiaeth a thwristiaeth. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cadw pwerau dros borthladdoedd ymddiriedolaeth mawr yng Nghymru oherwydd eu pwysigrwydd i'r DU. Yr unig borthladd ymddiriedolaeth mawr yng Nghymru yw Aberdaugleddau. Bydd polisi sy'n ymwneud â phorthladdoedd eraill sy'n gyfan gwbl o fewn ffin Cymru yn cael ei ddatganoli. Aberdaugleddau yw un o brif borthladdoedd ynni'r DU sy'n trafod 62% o'r holl nwy naturiol hylif sy'n dod drwy borthladdoedd y DU, ac mae'r burfa olew a chyfleusterau storio tanwydd yn yr Hafan (sy'n dibynnu ar y porthladd) yn cyflawni rôl genedlaethol bwysig drwy ddiogelu cyflenwadau o danwydd ar gyfer cerbydau ffyrdd ac awyrennau. Oherwydd pwysigrwydd strategol y Porthladd i'r DU, ac am ei fod yn borthladd ymddiriedolaeth sy'n atebol i'w randdeiliaid, mae pwerau dros y porthladd wedi'u cadw ac felly bydd yn atebol i Weinidogion y DU.

Y prif harbyrau yng Nghymru y bydd polisi datblygu porthladdoedd yn cael ei ddatganoli ar eu cyfer yw'r rheini sy'n eiddo i ABP yn ne Cymru – y Barri, Caerdydd, Casnewydd, Port

Talbot ac Abertawe – porthladdoedd Stena yn Abergwaun a Chaergybi yn ogystal â Phorthladd Mostyn.

Bydd yn bosibl i wahaniaethau godi yn y polisi ar borthladdoedd rhwng Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, gan y bydd y Cynulliad/Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am benderfynu ar gyfer bron pob un o'r porthladdoedd yng Nghymru, rhagwelir y bydd busnesau'n elwa o gael un awdurdod llywodraethu yn goruchwyllo polisi ar borthladdoedd. Rhagwelir y bydd y porthladdoedd a ddatganolir yng Nghymru hefyd yn elwa o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisi ar ddatblygu porthladdoedd ochr yn ochr â meysydd polisi cysylltiedig pwysig, fel trwyddedu morol, datblygu economaidd a mynediad ar y ddaear. Dylai hyn ganiatáu dull cydgysylltiedig o benderfynu gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn er budd porthladdoedd yng Nghymru.

Bydd trefniadau trosiannol yn sicrhau y bydd unrhyw geisiadau presennol am orchmynion diwygio harbwr neu orchmynion grymuso harbwr ar gyfer porthladdoedd yng Nghymru sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU wrth i'r Bil ddod i rym yn cael eu trafod mewn ffordd sy'n golygu na fydd y busnesau cysylltiedig yn ysgwyddo costau ychwanegol.

Caniatâd cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan â capasiti cynhyrchu o 350MW neu lai

Bydd y Bil yn datganoli cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru am roi caniatâd mewn perthynas â'r holl orsafoedd cynhyrchu trydan hyd at 350MW yng Nghymru, ar wahân i brosiectau ynni gwynt ar y tir sy'n cael eu datganoli heb gyfyngiad drwy Ddeddf Ynni 2016. Mae'r Bil yn sicrhau, mewn perthynas â rhoi caniatâd i godi gorsafoedd cynhyrchu ynni yng Nghymru, y bydd y penderfyniadau ar ganiatáu cysylltiadau llinellau uwchben priodol (yn amodol ar drothwy o ran capasiti) yn cael eu gwneud gyda'r prif ganiatâd. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ardaloedd diogelwch a chyfyngu ar hawliau mordwyo o amgylch y gorsafoedd cynhyrchu ynni hynny ar y môr y byddant yn gyfrifol amdanynt (y rhai hyd at 350MW). At hyn, mae'n gwneud darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio caniatâd ynni presennol ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni hyd at 350MW a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol naill ai o dan Ddeddf Cynllunio 2008 neu Ddeddf Trydan 1989. Bydd hyn yn symleiddio'r system bresennol, gan roi modd i Weinidogion Cymru gyflawni polisi ynni Llywodraeth Cymru yn fwy effeithiol. Bydd y newid yn sicrhau y gellir gwneud penderfyniad integredig ar y prosiect cynhyrchu ynni ynghyd ag unrhyw ddatblygu cysylltiedig. Rhagwelir y bydd hyn yn cyflymu penderfyniadau, yn osgoi'r angen am geisiadau ar wahân ar gyfer datblygu cysylltiedig ac yn rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr. Gan y bydd y pŵer dros benderfynu ar ganiatâd cynllunio ar gyfer gorsafoedd sy'n cynhyrchu mwy na 350MW yn cael ei gadw (heblaw am ynni gwynt ar y tir), bydd ceisiadau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn parhau i gael eu hystyried ar lefel y DU

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer y ceisiadau hynny a wnaed o dan naill ai Ddeddf Cynllunio 2008 neu Ddeddf Trydan 1989 cyn i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym, i'r graddau y bydd cais sydd wedi cael ei dderbyn i gael ei ystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol (sy'n gam rhagarweiniol yn y broses gydsynio), yn mynd yn ei flaen i gael penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd hyn yn sicrhau eglurder i fusnesau.

Ar hyn o bryd, Deddf Cynllunio 2008 yw'r sail statudol ar gyfer datblygu gorsafoedd cynhyrchu trydan yng Nghymru a Lloegr sy'n cynhyrchu mwy na 50MW ar dir a mwy na 100MW ar y môr. O dan y Ddeddf Cynllunio a deddfwriaeth flaenorol ar gyfer caniatáu datblygiadau, cafwyd 66 o geisiadau am brosiectau a oedd yn uwch na'r trothwyon hynny

rhwng 2010 a 2015. O'r rheini, roedd 10 ar gyfer prosiectau yng Nghymru, ac 8 ohonynt o fewn y terfynau capasiti sydd i'w datganoli Gymru drwy'r Bil (h.y. hyd at 350MW). Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd 86% o'r holl geisiadau ledled Cymru a Lloegr wedi'i ganiatáu. Mae'r costau am benderfynu ceisiadau'n gallu amrywio'n fawr yn ôl graddfa a chymhlethdod y gwahanol brosiectau.

Alinio caniatadau datblygu cysylltiedig

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl i'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd am ddatblygu sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith ynni yng Nghymru.

Bydd y Bil hwn yn diwygio Deddf Cynllunio 2008 fel y bydd pŵer gan yr Ysgrifennydd Gwladol i roi caniatâd am ddatblygu sy'n gysylltiedig â'r holl brosiectau ynni (heblaw prosiectau ynni'r gwynt ar dir) sy'n fwy na 350MW yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i wneud penderfyniadau integredig ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol o'r math hwn fel y ceir penderfynu mwy prydlon. Bydd hefyd yn osgoi'r angen am wneud ceisiadau ar wahân am ddatblygu cysylltiedig ac yn rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr.

Yn achos prosiectau ynni o dan y trothwy hwnnw a gaiff eu penderfynu yng Nghymru, y cyrff caniatáu yng Nghymru (e.e. awdurdodau lleol) fydd yn penderfynu ar unrhyw ddatblygu cysylltiedig. O ganlyniad i hyn, bydd y penderfyniad ar ddatblygu cysylltiedig yn cael ei wneud gan y penderfynwr sy'n gyfrifol am benderfynu ar y prif brosiect ynni.

Etholiadau

Mae'r Bil yn datganoli i Lywodraeth Cymru y trefniadau ar gyfer ei hetholiadau ei hun ac ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys cymhwysedd o ran cofrestru, etholfraint, gweinyddu a chynnal yr etholiadau hynny. Fel rhan o hyn bydd yr etholfraint ar gyfer etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) yng Nghymru yn cael ei datgysylltu o'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, o ran y gyfraith, er mwyn sicrhau bod etholfraint y PCC yn parhau i gael ei chadw i Lywodraeth a Senedd y DU.

Bydd y cymalau sy'n ymwneud ag etholiadau neu weithdrefnau'r Cynulliad yn cael effeithiau uniongyrchol dibwys neu fach ar fusnesau ac unigolion. Byddai unrhyw effeithiau uniongyrchol yn deillio o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan y Cynulliad i'w system etholiadol.

Ni fydd datgysylltu etholfraint Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) yn cael effaith sylweddol ar fusnesau ac unigolion. Bydd nodau presennol ar gofnodion ar y gofrestr fel y bo'n ofynnol o dan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (rheoliad 42) yn golygu bod modd cyfodol yr etholwyr perthnasol ar gyfer yr etholfraint PCC yng Nghymru.

DILEU'R GOFYNIAD AM GYNNAL REFFERENDWM AR DRETH INCWM

Roedd Deddf Cymru 2014 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer datganoli cyfran o dreth incwm i Lywodraeth Cymru ac, yn unol ag argymhelliad gan Gomisiwn Silk, roedd yn gosod gofyniad am gynnal refferendwm cyn i hynny ddigwydd. Mae'r ddadl gyhoeddus wedi symud ymlaen cryn dipyn ers hynny ac roedd amheuon yn codi'n amlach ynghylch yr angen am gynnal refferendwm cyn cyflwyno'r Cyfraddau Treth Incwm Cymreig. Mae'r

Llywodraeth wedi gwrandao ac wedi ymateb i hyn ac mae'r Bil yn dileu'r angen am gynnal refferendwm cyn cyflwyno'r Cyfraddau Treth Incwm Cymreig.

Byddai'r opsiwn o 'wneud dim' yn golygu y byddai'r angen am gynnal refferendwm yn aros ac felly ni fyddai'n cyflawni'r amcan polisi.

Mae'r Comisiwn Etholiadol (CE) wedi adrodd bod ymgyrch refferendwm y Cynulliad yn 2011 wedi costio cyfanswm o £5.89 miliwn. Roedd y ffigur hwn yn llai na'r un a ragwelwyd yn wreiddiol, yn rhannol am nad oedd ymgyrchoedd "ie" a "na" swyddogol wedi'u dynodi gan y CE, ac felly ni wariwyd unrhyw arian cyhoeddus ar eu hymgyrchu. Drwy ddileu'r angen am refferendwm ar dreth incwm, ni fyddai Llywodraeth Cymru, a hithau'n gyfrifol am y trefniadau etholiadol, yn gorfod ysgwyddo'r gost honno bellach. Byddai arbedion i Bwyllgor y Llefarydd gan mai ef sy'n ariannu'r CE ar gyfer cynnal ymgyrchoedd refferendwm. Byddai'r rhain wedi cynnwys costau am eitemau fel yr ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd y byddai'r CE wedi'u cynnal ac unrhyw arian y byddai wedi'i ddarparu i ymgyrchoedd "ie" a "na" a ddynodwyd.

Pe byddid yn dewis yr opsiwn o 'wneud dim', yna byddai'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chynnal refferendwm a nodwyd uchod yn cael eu gwireddu pe byddai refferendwm yn cael ei alw.

Cyhoeddwyd asesiad effaith llawn ar ddatganoli cyfran o dreth incwm ochr yn ochr â Deddf Cymru 2014. Mae crynodeb wedi'i ddiweddarau isod:

Mae Comisiwn Silk wedi nodi nifer o fanteision o ddatganoli elfen o dreth incwm. Yn benodol, roedd yn cydnabod mai treth incwm yw'r fwyaf o'r trethi i'r DU gyfan (yn codi tua 30% o gyfanswm y refeniw treth yng Nghymru, sef oddeutu £4.85 biliwn yn 2010-11) a'i bod yn un y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei thalu, fel y byddai buddiant clir gan ran helaeth o boblogaeth Cymru yn y penderfyniadau ar dreth incwm a wnaed gan y Cynulliad. Yn arolwg barn y Comisiwn ar ddatganoli treth incwm, cafwyd bod 64% o blaid hynny a 33% yn ei erbyn. Nododd y Comisiwn mai un o brif ganfyddiadau'r arolwg barn oedd bod y mwyafrif yn credu, pe byddai pwerau treth incwm yn cael eu datganoli, y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galetach i gynyddu refeniw a helpu i dyfu economi Cymru.

Felly byddai datganoli elfen o dreth incwm yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru i amrywio ei chyllideb a'i gwneud ei hun yn fwy atebol i bobl Cymru. Byddai hefyd yn darparu ffrwd refeniw annibynnol sylweddol y gallai Llywodraeth Cymru gymryd arian ar fenthyg yn ei herbyn i'w fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru.

Felly mae Llywodraeth y DU yn credu y byddai manteision sylweddol ynglŷn â datganoli elfen o dreth incwm i'r Cynulliad, gan gynnwys y gallu i osod cyfraddau treth incwm Cymreig ar wahân ar gyfer pob un o'r tri band, fel y mae Comisiwn Silk yn argymhell.

Bydd gweithredu'r cyfraddau treth incwm Cymreig yn golygu rhai costau. Yn unol â *Statement of Funding Policy* Llywodraeth y DU, bydd angen i Lywodraeth Cymru gwrdd â'r costau datganoli hyn. Mae'n anodd amcangyfrif y gost o weithredu'r gyfradd dreth incwm Gymreig oherwydd ansicrwydd ynghylch y cyfnod y bydd yn cael ei rhoi ar waith ond mae'n debygol o fod rhwng £10 miliwn a £15 miliwn gyda chostau rhedeg blynyddol rhwng £2 filiwn a £5 miliwn, yn ôl y ffordd yr oedd y Cynulliad am arfer y pwerau.

Mae'r costau'n is na'r rhai ar gyfer y newid cyfatebol yn yr Alban, yn bennaf am fod y boblogaeth lai yng Nghymru'n golygu y bydd llai o gysylltu gan gwsmeriaid. Gellid cael costau ychwanegol os bydd yn rhaid i HMRC ehangu capasiti ei linell gymorth Gymraeg i gynorthwyo ei gwsmeriaid a delio â chwestiynau penodol. Cynhyrchwyd yr amcangyfrifon hyn ar sail modelau gweithredu a systemau TG HMRC ar gyfer 2015-16. Fodd bynnag, mae HMRC yn mynd drwy broses o newid sylweddol ar hyn o bryd a fydd yn arwain, yn benodol, at newidiadau yn ei systemau a'i ddulliau ar gyfer rhyngweithio â chwsmeriaid a fydd yn debygol iawn o effeithio ar gostau. Mae HMRC yn dechrau mabwysiadu dull 'digidol yn gyntaf', a fydd yn arwain at fwy o rhyngweithio â chwsmeriaid drwy eu cyfrif treth personol digidol.

Yn yr un modd, byddai unrhyw gostau sy'n codi o'r angen i addasu systemau talu budd-daliadau'n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Gallai hyn godi o ganlyniad, er enghraifft, i rhyngweithio rhwng y system dreth a budd-daliadau penodol sy'n cael eu gweithredu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Mae'n bosibl y bydd effaith ar yr holl gyflogwyr yn y DU, ym mha le bynnag y maent, gan y bydd angen i'w systemau cyflogres gymhwyso'r cynllun Talu Wrth Ennill at y cyfraddau treth incwm Cymreig ar gyfer trethdalwyr Cymreig. Mae cyfraddau treth incwm Cymreig yn gweithio ar yr un sail yn fras â'r cyfraddau treth incwm Albanaidd, a gyflwynwyd yn Ebrill 2016 – mae cyflogwyr a darparwyr cyflogres wedi newid eu systemau er mwyn gweithredu'r gyfradd Albanaidd. Bydd y ffaith bod patrwm y ddwy gyfradd yn debyg yn helpu i leihau'r beichiau ar fusnes.